**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**
**Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**
**04 Chwefror 2025, 10:30 - 13:15**
**yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **Yn bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol (ar gyfer eitem 5.2.1) |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitem 5.5) |
| Sophie Fuller | (SF) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes (ar gyfer eitem 8) |
| Rosemary Fletcher | (RF) | Arweinydd Llywodraethu, Gweithredu Gweithrediaeth y GIG (ar gyfer eitem 8) |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Sgrinio a Diogelu Iechyd, yn cynrychioli Meng Khaw |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitemau 5.21 a 5.2.2) |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr Sgrinio (ar gyfer eitemau 5.3 a 5.4) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |

Heb eu Cadarnha

| *Dechreuodd y cyfarfod am 10:30* |
|---|

| **Rhan A** | |
|---|---|
| **QSIC 2025.02.04/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **QSIC 2025.02.04/2** | **Datganiad o Fuddiant** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. | |
| **QSIC 2025.02.04/3** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 2025.02.04/3.1** | **Cofnodion a Log Gweithredu** |
| Ystyriodd a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau ar y log gweithredu a **chymeradwyo** cau'r camau gweithredu a gwblhawyd. | |
| **QSIC 2025.02.04/3.2** | **Polisïau a Gweithdrefnau** |
| Cyflwynodd AC y polisi Achosion drafft, a oedd wedi bod drwy'r broses ymgynghori ac a gymeradwywyd gan y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau. Cynghorodd AC fod y polisi wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu argymhellion Fframwaith Achosion Cymru Gyfan.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:<br>• **Cymeradwyo'r** Polisi Rheoli Achosion a Chydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd; a<br>• **Cymeradwyo** archif y Weithdrefn Rheoli Achosion. | |
| **QSIC 2025.02.04/4** | **Argymhelliad i'r Bwrdd** |
| **QSIC 2025.02.04/4.1** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2024-25** |
| Cyflwynodd LB yr adroddiad blynyddol drafft, a oedd yn crynhoi meysydd allweddol gweithgareddau busnes y Pwyllgor a gyflawnwyd yn ystod 2024-25 hyd yma.<br><br>Diolchodd DC i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad cadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu arno, a thynnodd sylw at lwyddiant y peilot QSIC a oedd yn cael ei gyflwyno ar draws Pwyllgorau'r Bwrdd i gyd.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:<br>• **Cytunwyd** i'r fersiwn derfynol a chynnwys cyfarfod heddiw gael ei gytuno gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd; | |

Heb eu Cadarnhau

- **Cytunwyd i argymell** yr adroddiad (yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt gyda'r Cadeirydd) i'r Bwrdd i roi sicrwydd bod y Pwyllgor yn addas i'r diben ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.

| QSIC 2025.02.04/5 | Eitemau ar gyfer Sicrwydd |
|---|---|
| **QSIC 2025.02.04/5.1** | **Adroddiad Ansawdd, Llywodraethu a Pherfformiad** |

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Ansawdd, Llywodraethu a Pherfformiad ar gyfer Chwarter 3, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

Gweithio i Wella (PTR), Ch3

Crynhodd AC yr adran PTR, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon a adroddwyd ac y gweithredwyd arnynt yn ystod Chwarter 3, gan gynnwys:

- Un digwyddiad cenedlaethol adroddadwy y chwarter hwn, achos ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a oedd yn cael ei adolygu.
- Adroddwyd am 591 o ddigwyddiadau, cynnydd o 118 ers yr un cyfnod y llynedd. Credwyd bod hyn i'w briodoli i ddiwylliant adrodd gwell a'i bwysigrwydd yn cael ei hyrwyddo ymhlith dechreuwyr newydd.
- Cafodd 15 digwyddiad eu hadrodd i ddechrau fel niwed cymedrol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu hisraddio ar ôl ymchwiliad. Tynnodd AC sylw at y gwaith sydd ar y gweill i wella'r broses o nodi lefelau niwed o ganlyniad i ofal iechyd gan gynnwys cryfhau'r agwedd hyfforddi fel bod staff yn asesu hyn yn gywir.
- 32 digwyddiad gyda statws hwyr, gwelliant o 66 yn y chwarter blaenorol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

Cydnabod y gwelliant mawr yn nifer y digwyddiadau hwyr. Aeth y Pwyllgor ymlaen i geisio sicrwydd bod cynllun ar waith i fynd i'r afael â digwyddiadau a oedd yn hwyr iawn (120 diwrnod a mwy). Dywedodd AC fod yr achosion hyn yn bennaf o fewn y Gyfarwyddiaeth Sgrinio a bod y tîm PTR yn gweithio gyda'r arweinwyr Sgrinio i'w datblygu. Roeddent i raddau helaeth yn rhyngddibynnol ar ofynion digidol allanol. Cynghorodd CB hefyd am y drafodaeth barhaus gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn perthynas â materion TG, y gwaith sydd ar y gweill ar weithdrefn uwchgyfeirio a fyddai'n ceisio helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn a'u huwchgyfeirio mewn modd amserol a'r gwaith i wella'r Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) ac olrhain trywyddion.

- Wedi gofyn am ragor o wybodaeth am broffil y digwyddiadau cynyddol. Cynghorodd AC fod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n ymwneud â damweiniau, ymchwiliadau a diagnosis (cynnydd o 66 digwyddiad). Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau fel 'methiant i ddilyn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol' a 'gwallau cymerwr sampl' mewn Sgrinio Serfigol ac roeddent yn niwed lefel isel. Cynghorodd AC am y gwaith parhaus i geisio datrys pryderon o fewn Sgrinio Serfigol Cymru, a oedd â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau agored.

Profiad y Claf/Defnyddiwr Gwasanaeth

Amlygodd AC:

16 o gwynion datrysiad cynnar, a 7 cwyn ffurfiol. Themâu cyffredin yn ymwneud ag agwedd staff a thriniaeth glinigol. Tynnodd AC sylw at yr hyn a ddysgwyd o gwynion blaenorol o fewn Sgrinio Coluddion Cymru a oedd wedi arwain at dderbyn colonosgopïau preifat lle maent yn bodloni safonau cymhwyso. Roedd

Heb eu Cadarnhau

y canlyniad cadarnhaol hwn i ddefnyddwyr gwasanaethau i fod i gael ei adrodd yn yr adroddiad ansawdd blynyddol.

Ni adroddwyd unrhyw achos dyletswydd gonestrwydd y chwarter hwn. Adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor am ddau achos yn gysylltiedig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac maent yn parhau.

Derbyniwyd 120 o ganmoliaethau, ac Ymlediadau Aortig Abdomenol (AAA) oedd â'r nifer uchaf yn ymwneud â mynd y tu hwnt i lefel y gofal.

Gan adlewyrchu ar y newid sydd i ddod i reoliadau PTR a'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r Sefydliad, cododd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgysylltu â phartneriaid yn y gymuned. Gan gydnabod hyn, dywedodd AC fod partneriaid cymunedol wedi cyfrannu yn ystod y cam ymgynghori ac wrth symud ymlaen, byddai'r tîm PTR yn gweithio gyda'r tîm Ymgysylltu a phartneriaid Cymunedol i sicrhau bod deunyddiau PTR a thudalennau gwe'r Sefydliad yn diwallu anghenion y Cymunedau ac y byddai'r Sefydliad mewn sefyllfa i gynnig cyfarfodydd PTR wyneb yn wyneb fel cynnig safonol.

<u>Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch3</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Adroddwyd am 14 o ddigwyddiadau diogelu yn ymwneud â chyngor a chymorth.
- Tynnodd AC sylw at fodiwl diogelu newydd sy'n cael ei dreialu o fewn DATIX.
- Mae'r gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â risg newydd yn ymwneud â chydymffurfedd hyfforddiant Diogelu ar gyfer niferoedd penodol o swyddi yn yr Is-adran Sgrinio.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Myfyrio ar y ffocws parhaus i fynd i'r afael â'r risg sy'n gysylltiedig â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a oedd yn cynnwys gwaith i sicrhau bod y lefel gywir o wiriadau DBS wedi'u neilltuo i staff hanesyddol a newydd. Cydnabod lefel y cymorth y byddai ei angen i alluogi staff i lywio'r broses o gyflwyno polisi a phroses newydd ac unrhyw effaith bosibl y gallai lefel uwch o wirio ei chael ar staff.
- Diolchwyd i AC a'r tîm diogelu i gydnabod eu hymdrechion i wella'r gwasanaeth Diogelu a ddarparwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

<u>Gwaith y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau (IPC) Corfforaethol</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan amlygu'r canlynol:

- Adroddwyd am 14 o ddigwyddiadau, a barnwyd bod pob un ohonynt yn lefel isel o niwed.
- Cynnydd i fynd i'r afael ag arferion dihalogi o fewn Gwasanaethau Sgrinio, gan gynnwys cabinetau Uwchfioled i ddihalogi chwiliedyddion bronnau uwchsain a systemau awyru sydd bellach ar waith ar gyfer Bron Brawf Cymru.
- Roedd camau adferol ar waith i fynd i'r afael â chydymffurfedd â safonau glanhau o fewn rhai gwasanaethau sgrinio.
- Bod Nicola Lewis wedi dechrau yn ei swydd fel Nyrs IPC gorfforaethol ym mis Ionawr 2025.

Heb eu Cadarnhau

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y cabinetau Uwchfioled a'r systemau awyru wedi'u datrys yn llwyddiannus a diolchodd i AC am y diweddariad.

Rhybuddion Diogelwch a Rheoli Hysbysiadau
Nododd y Pwyllgor fod 4 hysbysiad diogelwch sy'n berthnasol i'r Sefydliad yn cael eu gweithredu'n unol â hynny.

Archwiliad Ansawdd a Chlinigol
Nododd y Pwyllgor y cynnydd o ran y cynllun Archwiliad Ansawdd a Chlinigol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.
- Cymeryd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| **QSIC 2025.02.04/5.2** | **Sicrwydd Ansawdd** |
|---|---|
| **QSIC 2025.02.04/5.2.1** | **Cofrestr Risgiau Strategol** |

Cyflwynodd DG y Gofrestr Risgiau Strategol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gadarnhau na fu unrhyw newid i'r sgorau risg presennol ers i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad ddiwethaf. Nododd DG fod y cynlluniau gweithredu perthnasol wedi'u diweddaru a bod terfynau amser diwygiedig wedi'u hamlygu.

Darparodd SA ddiweddariad manwl ar ddatblygiadau i Risg Strategol 3, gan amlygu'r canlynol:

- Roedd rheolaethau a chamau gweithredu yn cael eu datblygu, gyda ffocws ar gynhwysiant rhaglenni iechyd ac anghydraddoldebau ar lefel Weithredol a'r Grŵp Llywio Anghydraddoldebau Iechyd.
- Cynnydd y cynllun galluogi gwyddor ymddygiadol, a oedd i gael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.
- Ymdrechion parhaus i symud y dull o ymdrin â chynllun ymgysylltu yn ei flaen, gan gynnwys gwelliannau hirdymor i raglen y llysgennad ifanc a fframwaith profiad defnyddwyr gwasanaethau.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â sgôr risg a'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud.

Aeth TF ymlaen i roi diweddariad i Risg Strategol 5, gan amlygu'r canlyno:

- Cynhaliwyd archwiliad dwfn i'r gofrestr risg strategol mewn cydweithrediad â'r tîm Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Gwybodaeth. Roedd disgwyl i nifer o risgiau newid i reolaethau yn yr iteriad nesaf oherwydd y gwaith hwn.
- Trafodaeth flaenorol ynghylch a ddylid cynnwys cwynion a phryderon yn y gofod risg, gan nodi'r argymhelliad tebygol i ganolbwyntio ar berfformiad.

Diolchodd y Pwyllgor i TF am y diweddariad ac roedd yn edrych ymlaen at weld yr iteriad nesaf o Risg Strategol 5 yn dilyn y newidiadau a oedd yn adlewyrchu'r archwiliad dwfn.

Heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli risgiau strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. | |
| **QSIC 2025.02.04/5.2.2** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |
| Cyflwynodd DG y Gofrestr Risg Corfforaethol, gan nodi bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan y tîm arwain ar 23 Ionawr 2025. Tynnodd DG sylw at un newid yn y sgôr risg ar gyfer risg 1648 yn ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn colli mynediad at ddata gofal sylfaenol. Roedd y risg Gweddilliol wedi'i ostwng o 9 i 3, a oedd yn ddatblygiad cadarnhaol.<br><br>Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar reolaeth y Risg Corfforaethol o fewn y Sefydliad. | |
| **Egwyl** | |
| **QSIC 2025.02.04/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 2025.02.04/6.1** | **Adolygiad o Wasanaeth Ar Alwad pwrpasol EPRR 24/7** |
| Cyflwynodd TF yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r adolygiad o effeithiolrwydd y gwasanaeth ar-alwad pwrpasol Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR) 24/7 a gynhaliwyd ar ôl cyfnod o chwe mis ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2024. Pwysleisiodd TF natur gydweithredol y gwasanaeth a'r adborth rhagorol a dderbyniwyd ar y gwasanaeth. Eiliwyd hyn gan CB, a soniodd am ei phrofiad uniongyrchol o'r gwasanaeth fel Swyddog Gweithredol ar alwad, gan amlygu'r system gadarn a chysylltiadau da sydd ar waith.<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i TF am yr adroddiad, cydnabu lwyddiant y gwasanaeth ar alwad a'r cynlluniau ar gyfer gwelliant parhaus i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithiol ac yn ymatebol.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:<br>• **Nodi'r** adroddiad a chydnabod y meysydd thematig, yr argymhellion a'r camau gweithredu a nodwyd.<br>• Cymeryd **sicrwydd** bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru Wasanaeth Ar Alwad EPRR 24/7 cadarn a gwydn sy'n helpu i sicrhau bod y sefydliad yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac yn cael hysbysiadau Brys a Digwyddiadau Mawr mewn modd amserol. | |
| **QSIC 2025.02.04/5** | **Eitemau ar gyfer Sicrwydd (Parhad)** |
| **QSIC 2025.02.04/5.3** | **Diweddariad Gwasanaeth Sgrinio** |
| Cyflwynodd SS yr adroddiad, a oedd yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau sgrinio, gyda ffocws ar ansawdd, materion o fewn perfformiad y rhaglen nad oeddent yn unol â safonau gosodedig a gwelliannau ansawdd allweddol i wella iechyd y boblogaeth yng Nghymru ymhellach. Eglurodd SS, yn dilyn y drafodaeth a gafwyd mewn gweithdy Pwyllgor blaenorol, fod yr adroddiad wedi'i strwythuro i gyd-fynd â STEEP (Diogelwch, Amseroldeb, Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Pherson-Ganolog).<br><br><u>Sgrinio Coluddion Cymru</u><br>Yna rhoddodd SS drosolwg o wasanaeth Sgrinio Coluddion Cymru, gan nodi bod amseroedd aros colonosgopi yn hwy na'r targed o bedair wythnos, sef saith wythnos ar gyfartaledd ar draws Cymru. Dywedodd SH am y camau gweithredu sydd ar waith i | |

Heb eu Cadarnhau

wella perfformiad, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd â Byrddau Iechyd i drafod capasiti sgrinio ac ehangu'r gronfa o golonosgopyddion sgrinio achrededig.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Archwilio'r posibilrwydd a'r archwaeth o fewnoli/allanoli gwasanaethau colonosgopi ar draws byrddau iechyd neu bractisau preifat i gynyddu capasiti a lleihau amseroedd aros ar sail ranbarthol.
- Ystyried y niwed posibl i gleifion y credid ei fod yn niwed emosiynol yn hytrach na chlinigol, y gefnogaeth unigol sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r posibilrwydd o edrych yn ôl.
- Ystyried y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol a thrafodaeth ehangach gyda Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod y Sefydliad yn ymgysylltu â'r agenda ehangach ar amseroedd aros ar draws Cymru.

<u>Bron Brawf Cymru</u>
Darparodd SH drosolwg o wasanaeth Bron Brawf Cymru, gan ystyried y parth ansawdd amserol, gan nodi oedi i glinigau asesu oherwydd prinder staff clinigol medrus, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Nododd SH fod yr amseroedd aros yn dal i fod ymhell o fewn amser yr effaith glinigol ond dros eu targed gosodedig, amlinellodd y camau gweithredu sydd ar y gweill megis archebion wedi'u hoptimeiddio ac ar benwythnosau, defnyddio staff clinigol eraill ac optimeiddio cynlluniau swyddi a nododd y darlun sy'n gwella.

Nododd y Pwyllgor ei fod wedi cael cyflwyniad manwl a thrafodaeth ar amseroedd Asesu Canser y Fron yn ei gyfarfod blaenorol a diolchodd i SH am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i fynd i'r afael â'r amseroedd aros.

<u>Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru</u>

Aeth SH ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, gan ystyried y parthau ansawdd amserol, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a thynnodd sylw at adferiad yr ôl-groniad sgrinio. Eglurodd SH, er bod amseroldeb sgrinio presennol yn gwella, nid oedd yn unol â safonau gosodedig, gydag oedi yn y llwybr galw'n ôl o 12 mis. Dywedodd SH am y camau gweithredu sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys optimeiddio a thrawsnewid y rhaglen.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am eu cyfraddau 'Heb Fynychu' (DNA). Gwnaeth SH sylwadau ar y gwasanaeth ail-archebu sydd ar waith i reoli capasiti a chytunodd i ddarparu manylion ar effaith cyfraddau DNA gwirioneddol ar gapasiti gwasanaethau yn iteriad nesaf yr adroddiad.
**Cam Gweithredu: SH**

<u>Optimeiddio Sgrinio Coluddion</u>
Darparodd SH ddiweddariad ar raglen Optimeiddio Sgrinio Coluddion Cymru, a oedd yn cyd-fynd â'r holl barthau ansawdd ac yn tynnu sylw at ehangu'r ystod oedran sgrinio i gynnwys pobl 50 oed a hŷn erbyn mis Gorffennaf 2025 a gostwng y terfyn

Heb eu Cadarnhau

sensitifrwydd ffit cadarnhaol. Tynnodd SH sylw hefyd at y gwaith datblygu i gyflwyno camerâu newydd i wella ansawdd delweddau a lleihau delweddau retinol annigonol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Ceisio sicrwydd bod ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus lawn ar waith i gefnogi'r cyhoedd gyda'r newidiadau. Cadarnhaodd SH eu bod wedi gweithio gyda'r adran Gyfathrebu i sicrhau bod hyn yn ei le a dywedodd am astudiaeth achos a gafodd dderbyniad da.
- Roeddem yn falch o nodi'r buddsoddiad mewn atal ac adnewyddu offer ac amlygwyd yr angen i sicrhau bod y Sefydliad yn hyrwyddo'r gwaith sydd ar y gweill gyda'r llywodraeth ganolog i arddangos pwysigrwydd buddsoddi mewn atal. Cymerodd SH yr adborth hwn i ystyriaeth a chroesawodd hefyd drafodaeth gydag AC ynghylch cynnwys yr agweddau trawsnewid yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

<u>Prosiect Sgrinio'r Ysgyfaint</u>
Daeth SH â'r diweddariad i ben drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Sgrinio Ysgyfaint, a oedd yn cyd-fynd â phob agwedd ar y meysydd ansawdd a thynnu sylw at brosiect cwmpasu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu sut y gellid darparu rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint genedlaethol wedi'i thargedu yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd adroddiad interim ar y canfyddiadau a'r opsiynau i'w gyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth 2025 a byddai'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am yr adroddiad llawn gwybodaeth a chymerodd **sicrwydd** bod ffocws ar weithio i ddarparu rhaglenni sgrinio o ansawdd yn unol â darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i boblogaeth Cymru.

| **QSIC 2025.02.04/5.4** | **Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn Bron Brawf Cymru** |
|---|---|

Cyflwynodd SH yr adroddiad, a oedd yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn dilyn arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Arolygiaeth Iechyd Cymru (IR(ME)R) yn Bron Brawf Cymru, Llandudno, ar 28 a 29 Awst 2024. Cadarnhaodd SH fod yr holl gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion wedi'u cwblhau, gan gynnwys gweithdrefnau wedi'u hailysgrifennu a hyfforddiant staff, a dywedodd fod yr hysbysiad gwella wedi'i godi ar 10 Rhagfyr 2024. Dywedodd SH fod ailarolygiad wedi'i drefnu yn Abertawe yn ystod mis Ebrill 2025.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am y wybodaeth ddiweddaraf, gan nodi bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried diweddariadau i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r deilliannau dysgu mewn sesiynau Pwyllgor preifat ac yng nghyfarfod y Bwrdd Cyhoeddus ym mis Ionawr. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ailadrodd canmoliaeth y Bwrdd o'r tîm am eu hymateb amserol i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynd i'r afael â'r camau gweithredu a godwyd gan arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Arolygiaeth Iechyd Cymru (IR(ME)R) yn Bron Brawf Cymru, Llandudno, ar 28 a 29 Awst 2024.

Heb eu Cadarnhau

| QSIC 2025.02.04/5.5 | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 3 2024-25 |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 2, 2024-25, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch a gyflawnwyd ar gyfer y cyfnod hwn. Nododd ND nifer o bwyntiau pwysig o'r adroddiad:

- Archwiliadau rheolaidd diweddar gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o labordai microbioleg a'r camau gweithredu sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r argymhellion dilynol.
- Roedd ymchwiliad ar gyfer 1 digwyddiad Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn ymwneud ag anafiadau staff, wedi'i gwblhau.
- Cydymffurfedd 100% ar draws pob safle ar gyfer gofynion rheoli adeiladu statudol a rheoliadol.
- Hyfforddiant ar y gweill ar gyfer staff gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, gan gynnwys codi a chario'r camerâu newydd.

Diolchodd y Pwyllgor i ND am y diweddariad a chymerodd **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

| QSIC 2025.02.04/6 | Eitemau i'w Nodi |
|---|---|
| QSIC 2025.02.04/6.2.1 | Traciwr Camau Gweithredu Archwilio |

Cyflwynodd LB yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu archwilio a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor yn dilyn ystyriaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 14 Ionawr 2025.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** y diweddariadau i'r Traciwr Archwilio sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.
- **Ystyried** unrhyw effaith ar gynlluniau gwaith / meysydd ffocws y Pwyllgor.

| QSIC 2025.02.04/6.2.2 | Adroddiad Archwilio Y Ddyletswydd Gonestrwydd |
|---|---|

Cyflwynodd LB yr Adroddiad Archwilio Mewnol, gan nodi bod graddfa Sicrwydd Rhesymol wedi'i rhoi a bod yr un cam gweithredu a argymhellwyd ar y gweill.

**Nododd** y Pwyllgor gynnwys yr Adroddiad Archwilio Mewnol, a'r cynllun i adolygu'r broses archwilio gyda Chadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd i sicrhau priodoldeb y llif gwybodaeth archwilio rhwng y Pwyllgorau.

| QSIC 2025.02.04/6.3 | Cynllun Gwaith y Pwyllgor |
|---|---|

**NODODD** y Pwyllgor y canlynol:

- Cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2024-25.
- Byddai cynllun gwaith drafft y Pwyllgor ar gyfer 2025-26 yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn dilyn Gweithdy Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Heb eu Cadarnhau